rhif elusen 516040

Adroddiad a Chyfrifon yr Ymddiriedolwyr, 01/09/06 ~ 31/08/07

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Cyflwyniad

Yn ystod y deuddeg mis y mae'r adroddiad hwn yn eu cwmpasu, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cynnal pedwar cyfarfod â chworwm llawn, ynghyd â chyfarfodydd is-bwyllgorau i drafod materion penodol. Mae gwaith y sefydliad wedi bod yn cael ei fonitro'n barhaus ac yn drylwyr, ar sail yr adroddiadau manwl a ddarperir gan y Cyfarwyddwr ym mhob cyfarfod. Gwelwyd rhaglen lawn o weithgareddau amrywiol yn ystod y flwyddyn, a manylir arnynt yng nghorff yr adroddiad hwn.

Cyllid a Chodi arian

Mae ein cyfrifon yn dangos balans iach. Ond ni ellir bod yn hunanfodlon, a chedwir golwg fanwl ar wariant trwy gyfrwng rhagolygon cyllideb, a gyflwynir yn rheolaidd yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr. Rydym wedi bod yn ffodus i gael grant arall o £5000 oddi wrth Ymddiriedolaeth Llysdinam; mae'r grant hwn yn darparu arian creiddiol gwerthfawr i gefnogi rhedeg y sefydliad, yn ogystal â phrosiectau penodol. Unwaith eto, rydym wedi cael grantiau oddi wrth Gyngor Sir Powys. Mae'r grant blynyddol oddi wrth y gwasanaeth ieuenctid bellach wedi'i symud i gyllideb celfyddydau'r Sir. Rydym yn ffyddiog y bydd yr ariannu hwn yn parhau, ond mae'r cwtogi ariannol mawr sydd wedi bod i gyllideb gyffredinol y Sir yn achosi rhai pryderon ynghylch dyfodol ariannu o'r fath, a'r gronfa CESF rydym wedi'i chael unwaith eto, ar gyfer prosiectau penodol. Er gwaethaf cyfarfodydd pellach â swyddogion y Sir i geisio ennill cefnogaeth sy'n gyfartal â'r hyn a roddir i Theatr Ieuenctid Canolbarth Powys drwy Theatr Powys, nid oes unrhyw gynnydd wedi bod yn hyn o beth.

Unwaith eto, rydym yn cofnodi ein diolch i Ysgol Uwchradd y Trallwng. Heb y gefnogaeth y maent yn ei chynnig drwy ddarparu safle i ni, byddai'n amhosibl i'r sefydliad weithredu. Diolch hefyd i Gyngor Tref y Trallwng am ei grant blynyddol. Rydym yn ei werthfawrogi'n fawr.

Nid yw ffioedd arweinwyr gweithdai ac unigolion proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r grŵp wedi cynyddu eleni, ond mae'n rhaid adolygu hyn yn ystod y misoedd sydd i ddod. Rydym wedi cynnal ffioedd aelodaeth ar yr un gyfradd â blynyddoedd blaenorol, gyda gostyngiadau i deuluoedd ar incwm isel.

Staffio

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae pawb sy'n gweithio gyda'r theatr ieuenctid wedi cael yr hyfforddiant proffesiynol i wneud hynny, ac maent yn gweithio ar gontractau tymor byr, hunangyflogedig. Rydym yn ffodus i gael gwasanaethau arweinwyr gweithdai ac arbenigwyr mewn gwahanol feysydd o'r celfyddydau perfformio, a chan eu bod yn aros â ni, mae yna sefydlogrwydd a dilyniant i'r grwpiau. Mae hyn hefyd yn galluogi cynllunio'n fanwl ar gyfer y dyfodol a chydweithio rhwng arweinwyr gweithdai a'r cyfarwyddwr, mewn cyfarfodydd rheolaidd. Mae pob
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

tiwtor, a phawb arall sy'n gweithio gyda'r grwpiau, wedi bod yn destun gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Aelodaeth

Rydym wedi cadw'r lefel uchel o aelodaeth a phresenoldeb. Er bod nifer fach o ymgeiswyr wedi gorfod aros ar y rhestr aros rydym wedi gallu cynnig lleoedd i'r mwyafrif sy'n dymuno'u llenwi. Mae'r grŵp hŷn yn parhau'n gyson i fod â mwy o rai sydd am ymuno nag sydd o leoedd: yn achos yr aelodau hynny a fydd ym mlwyddyn 9 yn yr ysgol y flwyddyn nesaf, mae'n debyg y bydd yn rhaid iddynt aros rhywfaint cyn y bydd modd iddynt ddod i'r grŵp hŷn, gan ei bod yn debygol y bydd y niferoedd yn aros yn rhy uchel i wneud lle iddynt. Rydym yn gobeithio darparu rhai gweithgareddau ychwanegol wedi'u targedu iddynt tra'u bod yn aros. Wrth edrych ar niferoedd yr holl grwpiau gyda'i gilydd, mae tua 70 o bobl ifanc yn bresennol bob wythnos, a'r mwyafrif ohonynt byth yn methu sesiwn.

Gweithdai, Prosiectau, Cynyrchiadau

Y grŵp iau (blynyddoedd ysgol 5 a 6): Rydym wedi bod yn ffodus i gadw gwasanaethau Penny Jones, sydd bellach yn gyfrifol am gynllunio a chyflenwi'r gweithdai ar y lefel hon. Yn ystod tymor y gaeaf, bu'r cyfarwyddwr yn gweithio ochr yn ochr â hi er mwyn ei chefnogi, ond wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, fe gwtogwyd ar y gefnogaeth hon. Mae aelod o'r grŵp hŷn, Daragh Quinn, yn rhoi cefnogaeth wirfoddol amhrisiadwy. Cynhaliwyd gweithdai yn ystod y tri thymor, ac roedd tymor yr haf yn fyrrach. Ar ddiwedd pob tymor, dangosodd y grŵp elfennau o'r gwaith yr oeddent wedi'i wneud i gynulleidfa o rieni oedd wedi cael gwahoddiad.

Y grŵp canolradd (blynyddoedd ysgol 7 ac 8): Mae Sarah Owen wedi bod yn arwain y grŵp hwn am y tair blynedd diwethaf. Maent wedi cyfarfod dros dri thymor, gyda set ychydig yn fyrrach o weithdai yn yr haf. Arweiniodd y gwaith a wnaed yn rhan gyntaf y flwyddyn at gynhyrchiad â dwy sioe, gyda'r grŵp hŷn (gwelwch isod).

Y grŵp hŷn (blynyddoedd ysgol 9/10 i 13): Ginny Graham sy'n arwain y grŵp. Cynhaliwyd gweithdai ac ymarferion yn ystod y tri thymor, ac yn nhymor yr haf cafwyd sesiynau dwys yn seiliedig ar sgiliau. Canolbwynt y gwaith cynharach oedd gweithio tuag at y cynhyrchiad â dwy sioe. Yn ystod tymor yr haf, bu'r grŵp yn gweithio gyda'r bardd Chris Kinsey hefyd, mewn gweithdy'n edrych ar ei syniadau ar gyfer drama radio, sy'n cael ei chreu ar hyn o bryd.

Gweithdy sgiliau syrcas: Yn ystod tymor yr haf, cynhaliwyd gweithdy undydd ar gyfer yr aelodau iau a chanolradd, a daeth un aelod ar bymtheg iddo. Bu'r gweithdy'n llwyddiant, a chafwyd llawer o hwyl. Dysgwyd nifer o sgiliau ac fe'u perfformiwyd o flaen cynulleidfa oedd wedi cael gwahoddiad. Yn wreiddiol, gweithdy deuddydd oedd hwn i fod, ond roedd llai o aelodau na'r disgwyl yn dymuno cymryd rhan ynddo, felly un diwrnod yn unig a gafwyd i gynnwys y ddau grŵp. Mae'n amlwg nad tymor yr haf yw'r gorau ar gyfer digwyddiadau ar benwythnosau, a rhoddir ystyriaeth i hyn ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

Y prif gynhyrchiad: Yr aelodau hŷn a chanolradd oedd yn llwyfannu'r cynhyrchiad â dwy sioe hwn, a'r teitl oedd *Dispossessed*. Dwy ddrama rymus wedi'u dyfeisio oeddynt, yn delio â digwyddiadau bythol a rhai cyfoes, gyda cherddoriaeth wedi'i chyfansoddi gan Iris Gordijn. Bu hyn yn llwyddiant o safbwynt artistig ac o safbwynt nifer y bobl a ddaeth i'w gweld. Rhoddwyd tri pherfformiad, ac aelod hŷn oedd yn rheoli'r llwyfan. Rhwng y ddwy ddrama, roedd cast o fwy na 50 aelod.

Prosiect yr Haf: Am wythnos yn ystod gwyliau'r haf, bu chwe aelod o'r grŵp hŷn yn gweithio'n ddwys ar ddrama wedi'i dyfeisio'n rhannol, sef *And this is the Tale they Told*. Rhoddwyd tri pherfformiad o flaen cynulleidfaoedd â niferoedd da, ac a oedd yn werthfawrogol iawn, yn Hirnant a'r Trallwng.

Adnoddau

Prynwyd rig goleuo newydd, yn lle'r system wreiddiol. Caiff ei ddefnyddio ar deithiau, ac fel golau ychwanegol yn y theatr pan fo angen. Mae hefyd ar gael i ysgolion cynradd ei logi'n rhad ac am ddim ar gyfer eu cynyrchiadau hwythau, ac i sefydliadau cymunedol y mae ei angen arnynt. Mae rhai grwpiau cymunedol, ac Adran Celfyddydau Perfformio Ysgol Uwchradd y Trallwng, hefyd yn manteisio ar y gwisgoedd niferus, sydd dan oruchwyliaeth Penny Jones.

Rhwydweithio

Mae gan y theatr ieuenctid gysylltiadau cryf â'r gymuned, a chyda sefydliadau celfyddydol eraill, fel Cyswllt Celf. Y Cyfarwyddwr yw Cadeirydd Fforwm Celf Powys. Mae'r theatr yn cael sylw da yn y wasg ac mae ei chysylltiadau anffurfiol â sefydliadau celfyddydau perfformio'n golygu bod cyfleoedd yn dod i'w rhan, er enghraifft y cynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer perfformiad mewn cysylltiad â dathliadau Nos Ystwyll yn Llandinam, a drefnir gan TASC.

Casgliad

Ar ddechrau ei 25ain flwyddyn ar waith, mae Theatr Ieuenctid Sir Drefaldwyn yn sefydliad poblogaidd, iach sy'n ffynnu. Mae gan yr aelodau, eu teuluoedd a'r gymuned artistig, addysgol ac ehangach y mae'n gweithredu ynddi feddwl mawr o'r sefydliad. Mae ymrwymiad ac arbenigedd staff y theatr yn un o'i chryfderau ond ei phrif gryfder yw'r aelodau eu hunain sy'n rhoi gwerth i'r profiadau maent yn eu rhannu, gan weithio â ffocws, hwyliau da sy'n enghraifft i bawb, a chan ganolbwyntio ar y tasgau a osodir iddynt (ac y maent yn eu gosod i'w hunain). Mae nifer ohonynt wedi mynd yn eu blaenau i yrfaoedd llwyddiannus mewn sawl maes o'r celfyddydau perfformio. Mae llawer mwy wedi cael budd llai uniongyrchol, ond heb fod yn llai pwysig, wrth fagu mwy o hunanhyder a hunangyflwyniad, a diddordeb parhaus yn y celfyddydau, a gafodd ei feithrin yn ystod eu gwaith gyda'r theatr ieuenctid. Ac yn awr, mae'r genhedlaeth nesaf gennym ni, rhai o blant y cyn-aelodau sy'n symud drwy'r tair lefel aelodaeth, yn dilyn camau eu rhieni. Mae'r theatr ieuenctid yn dechrau ar ei hail chwarter canrif gan wybod yn iawn bod llawer o ffrindiau a chefnogwyr ganddi ac, yn bennaf oll, ei bod yn ddylanwad mawr a buddiol ar fywydau'r bobl ifanc y mae'n eu gwasanaethu.

Eileen Roberts, Cadeirydd, Theatr Ieuenctid Sir Drefaldwyn

~~~~~~
~~~~~~

Ymddiriedolwyr Theatr Ieuenctid Sir Drefaldwyn

Eileen Roberts, *Cadeirydd*

Lesley Cookson, *Trysorydd*

Charlotte Durie, *Ysgrifennydd*

Caroline Clegg

Jenny Wilcox

Jane Howells

Geraint Owen

Sylwedyddion/Cynrychiolwyr Aelodau

Henry Pass,

Rosie Laceby-Common

Rhai wedi'u cyfethol

Clare Martin

Iris Gordijn

Eluned Gold

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

MONTGOMERYSHIRE YOUTH THEATRE

registered charity no. 516040

Income and Expenditure 01/09/06 - 31/08/07

Income

Opening balances:			
	current a/c	3340.89	
	deposit a/c	7799.58	
			11140.47
	interest on deposit a/c		256.13
Grants:			
	Llysdinam Trust	5000.00	
	Powys County Council	6384.00	
	Welshpool Town Council	500.00	
			11884.00
Other income:			
	Members' subscriptions	3338.00	
	Box Office	1951.95	
	Sales	56.00	
	Donations	65.00	
	Raffle	88.00	
	Services rendered	54.13	
			5553.08
			28833.68

Expenditure

Director's Administration	3206.30	
Artists Fees	5454.00	
		8660.30
Production Costs		367.64
Other expenditure:		
Travel	148.60	
Translation	157.23	
General Administration	91.17	
Insurance	270.12	
Audit Fee	75.00	
Replacement lighting equipment	882.14	
Transfers to Petty Cash	864.00	
		2488.26
		11516.20

Closing balances:

Current account	4286.77	
(less cheque not presented)	25.00	
	4261.77	
Deposit account	13055.71	
		17317.48
		28833.68